PAGE 1

Y Comisiwn Etholiadol

**Cynllun Corfforaethol Dros Dro**

2020/21 – 2024/25

Cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin yn unol â Pharagraff 15(4) o Atodlen 1 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 29 Ebrill 2020.

HC 323

PAGE 2

© Y Comisiwn Etholiadol

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/opengovernment-licence/version/3.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Comisiwn Etholiadol a nodi teitl y ddogfen. Lle y nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid ceisio caniatâd gan briod ddeiliad yr hawlfraint.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.electoralcommission.org.uk/cy/system/404.

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon i: The Electoral Commission, 3 Bunhill Row, London, EC1Y 8YZ neu drwy ein gwefan yn: https://www.electoralcommission.org.uk/cy/cysylltwch-a-ni/cysylltwch-a-ni-ar-lein

ISBN 978-1-5286-1899-1
CCS0420519846 04/20

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi ei ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

PAGE 3

**Cynnwys**

Rhagair....4
Cyflwyniad ....6
Ein rôl ....8

Ein nodau a'n blaenoriaethau ....................................................................................10
Ffocws ar Ogledd Iwerddon .......................................................................................18
Ffocws ar yr Alban.......................................................................................................19
Ffocws ar Gymru..........................................................................................................20
Gweithgareddau allweddol 2018-20............................................................................21
Rheoli ein costau .........................................................................................................24
Ein trefniadau llywodraethu.........................................................................................26



## Rhagair

Croeso i'n Cynllun Corfforaethol Dros Dro ar gyfer 2020-25 – sy'n gynllun newydd, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth, er mai dim ond 18 mis yn ôl y cyhoeddwyd ein cynllun blaenorol a oedd yn cwmpasu 2018-2023. Mae'r Cynllun hwn yn nodi ein blaenoriaethau cynnar ar gyfer y cyfnod hwn a'r modd rydym yn bwriadu cyflawni ein cyfrifoldebau, yn enwedig yn y flwyddyn gyntaf, cyn i gynllun pum mlynedd mwy cynhwysfawr gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni yn unol â gofynion deddfwriaethol.

Gwelwyd newid sylweddol, heriau ac anhrefn yng ngwleidyddiaeth y DU yn y cyfnod ers Cynllun Corfforaethol diwethaf y Comisiwn. Credaf fod y gymuned etholiadol wedi ymateb i'r heriau hyn ac wedi gweithredu'n effeithiol ar ran y pleidleisiwr, gan mai dyna yw ein prif gyfrifoldeb.

Dim ond megis dechrau dod i'r amlwg y mae effeithiau pandemig Covid-19, a hynny'n fwyaf uniongyrchol drwy ohirio'r etholiadau a drefnwyd ar gyfer mis Mai 2020; er y croesewir y cam hwn, mae'n golygu y bydd y gwaith o drefnu etholiadau mis Mai 2021 yn fwy heriol o lawer.

Mae'r etholiadau wedi parhau i gael eu rhedeg yn dda, er gwaethaf y ffaith bod etholiadau cenedlaethol annisgwyl yn gosod gofynion sylweddol ar gryfderau a dyfeisgarwch gweinyddwyr ledled y wlad. Mae'r prosesau o gofrestru pleidleiswyr, a bwrw pleidleisiau, wedi cael eu cynnal yn drylwyr ac yn dryloyw, gan ennyn lefelau uchel o foddhad gan y cyhoedd. Ac mae ein system reoleiddio ar gyllid gwleidyddol wedi parhau i ddangos ei gwerth.

Ond yn sicr mae ein system yn dangos straen, yn enwedig mewn perthynas â phwysau parhaus ar adnoddau a chapasiti awdurdodau lleol, ac mae heriau y mae angen eu hwynebu. I'r cyhoedd, mae'r system yn dibynnu ar hyder, sy'n cronni dros sawl blwyddyn, ac y gellir ei golli'n gyflym os bydd amheuon yn dechrau codi. Er bod ein hymchwil gyda'r cyhoedd yn dangos bod y mwyafrif o'r bobl yn teimlo'n hyderus bod etholiadau mis Mai 2019 wedi cael eu rhedeg yn dda, a bod y rhan fwyaf o bleidleiswyr yn fodlon ar y broses bleidleisio, roedd lefelau hyder pleidleiswyr yn gyffredinol yn y gwaith o redeg Etholiad Senedd Ewrop ac etholiadau lleol mis Mai yn is nag mewn etholiadau blaenorol o'r fath

Gyda Llywodraeth fwyafrifol mewn grym yn San Steffan ar hyn o bryd, ynghyd â'r awydd parhaus yng Nghymru a'r Alban i fwrw ymlaen â newid, bydd y pum mlynedd nesaf yn

gyfnod hollbwysig o ran buddsoddi mewn diwygiadau i gefnogi'r broses barhaus o redeg etholiadau yn dda, prosesau ymgyrchu effeithiol a thryloyw, a rhoi hwb i hyder pleidleiswyr. Mae gan y Comisiwn rôl hanfodol i helpu llywodraethau ac eraill i gyflawni hyn.

Un o'r prif heriau, a'r un fwyaf sylfaenol efallai, yw'r ffaith bod y ddeddfwriaeth y mae'r sector yn ymdrechu i ddarparu ei wasanaethau oddi tani wedi dyddio. Mae mwy na 50 o Ddeddfau a dros 170 o Offerynnau Statudol yn ymwneud â chynnal etholiadau. Yn 2018, mewn rhannau o Loegr lle y cynhaliwyd etholiadau maerol ar yr un diwrnod ag etholiadau lleol, bu'n rhaid i weinyddwyr etholiadol gyfeirio at 11 o ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol a chwe darn o is-ddeddfwriaeth. Nid problem dechnegol yn unig yw hon – mae costau, canlyniadau a risgiau gwirioneddol i bleidleiswyr, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr, rheoleiddwyr a llywodraethau. Mae cynigion presennol gan Gomisiynau'r Gyfraith yn y DU wedi cynnig sail yr ymchwiliwyd iddi'n fanwl ac a gefnogir yn eang dros waith pellach, ac rydym yn parhau i alw ar lywodraethau a seneddau'r DU i weithredu ar y rhain.

PAGE 5

Mae hyn yn gynyddol bwysig wrth i'r cydberthnasau rhwng cyfreithiau ar gyfer etholiadau'r DU ac etholiadau datganoledig ddod yn fwy cymhleth. Mae datganoli o San Steffan i'r deddfwrfeydd a'r llywodraethau yng Nghymru a'r Alban yn cynnig cyfleoedd i sicrhau a chefnogi amrywiaeth o ran polisi rhwng etholiadau ar gyfer cyrff gwahanol yn y DU. Fodd bynnag, ni ddylai fod angen i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r manylion technegol neu weinyddol sylfaenol amrywio'n fawr rhwng etholiadau mewn rhannau gwahanol o'r DU. Dylid anelu at ddarparu'r sail gyffredin gryfaf posibl ar gyfer darparu digwyddiadau pleidleisio sy'n cael eu rhedeg yn dda mewn sefyllfaoedd gwahanol, heb gymhlethdod diangen i'r gweinyddwyr na'r pleidleiswyr.

Mae angen moderneiddio'r system gofrestru hefyd, er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben heddiw. Mae diwygio'r broses ganfasio yn ddechrau da yn y cyfeiriad cywir, ond mae'r ffaith bod mwy na 370 o gofrestrau ar wahân nad ydynt yn cysylltu â'i gilydd yn golygu bod y system yn fregus, ac mae'r ffaith na all pleidleiswyr wirio ar-lein p'un a ydynt wedi cofrestru eisoes yn arwain at sawl cais dyblyg gwastraffus bob tro y bydd yn adeg cynnal etholiad newydd. Mae'n hen bryd symud tuag at broses gofrestru fwy awtomataidd a chysylltiedig.

Yn y cyfamser, mae natur ymgyrchu gwleidyddol yn newid o hyd. Cynyddodd y gwariant gan bleidiau ar hysbysebu digidol o 24% i 43% o gyllidebau hysbysebu rhwng Etholiadau Cyffredinol y DU yn 2015 a 2017. Rydym am weld beth mae'r ffurflenni gwariant ar gyfer etholiad 2019 yn ei ddweud wrthym am y duedd hon, ond mae'n amlwg bod angen i reoliadau – a'r gyfraith – gadw i fyny â datblygiadau mewn dulliau ymgyrchu. Mae gan y DU un o'r systemau mwyaf tryloyw yn y byd o ran cyllid gwleidyddol, a dylai pleidleiswyr allu gweld yn glir pwy sy'n gwario arian ar-lein er mwyn dylanwadu arnynt mewn etholiadau a refferenda.

Wrth i brosesau ymgyrchu newid, mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau bod gan y Comisiwn y pwerau a'r adnoddau cywir i reoleiddio cyllid gwleidyddol yn effeithiol. Rydym yn gwneud ymdrech fawr i annog cydymffurfiaeth a gweithio gyda phawb dan sylw er mwyn helpu i sicrhau bod hyn yn digwydd. Er hyn, mae angen i ni fod yn barod i gymryd camau mewn

perthynas â'r rhai hynny nad ydynt yn cydymffurfio pan fo angen. Er enghraifft, er mwyn cynnal asesiadau o achosion o gamymddwyn yn gyflymach, dylid ehangu ein pwerau i ofyn am wybodaeth; ac er mwyn atal hyn yn well, mae angen bygwth cosbau uwch.

Nid materion newydd yw'r rhain. Maent oll yn gwestiynau y mae'r Comisiwn ac eraill wedi'u codi dro ar ôl tro. Ond nid ydynt wedi diflannu ac, yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn cynyddu o ran risg a brys. Yn fy marn i, mae angen i ni gael trafodaeth fwy dwys ac uchelgeisiol am ddiwygio etholiadol na'r hyn a gafwyd dros y blynyddoedd diwethaf, ar faterion sydd, wedi'r cyfan, yn hanfodol i'n democratiaeth.

Mae'r cynllun isod yn nodi sut mae'r Comisiwn yn bwriadu chwarae ei ran er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, cyn y cynllun llawnach y flwyddyn nesaf, a gweithio gyda holl lywodraethau'r DU er mwyn eu helpu i ddatblygu eu cynlluniau diwygio eu hunain. Edrychwn ymlaen at weithio mewn modd adeiladol â phawb dan sylw – llywodraethau, seneddau, pleidiau ac ymgyrchwyr, gweinyddwyr etholiadol a grwpiau eraill â diddordeb – er mwyn cynnal hyder pleidleiswyr a hygrededd ein hetholiadau.

**Syr John Holmes,** Cadeirydd

PAGE 6

**Cyflwyniad**

Sefydlwyd y Comisiwn Etholiadol ugain mlynedd yn ôl bellach, gan Senedd y DU, i weithredu fel y corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Ers hynny, mae'r Comisiwn wedi datblygu corff sylweddol o arbenigedd a phrofiad ac mae ei swyddogaethau wedi dod yn rhan annatod o gadernid a dilysrwydd ein democratiaeth yn y DU, o ran y DU gyfan ac yng ngwledydd y DU. Mae lefelau hyder ac ymddiriedaeth pleidleiswyr mewn etholiadau yn uchel ond, fel yr amlinellwyd yn rhagair y Cadeirydd, mae ein system etholiadol yn wynebu rhai heriau allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw. Mae'r cynllun dros dro hwn yn nodi sut y byddwn yn gwneud cynnydd tuag at ymateb i'r heriau hynny.

Rydym wedi llunio'r Cynllun Corfforaethol Dros Dro pum mlynedd hwn yn unol â'n dyletswydd statudol yn dilyn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU ym mis Rhagfyr, ac yn y cyd-destun hwnnw caiff ei gyflwyno ar fyr rybudd. Mae agweddau ar y Cynllun blaenorol wedi cael eu cario ymlaen gan ganolbwyntio'n fwy pendant ar y flwyddyn 2020/21 sydd i ddod. Gwnaed y penderfyniad i ohirio digwyddiadau pleidleisio mis Mai 2020 tan fis Mai 2021 pan oedd fersiwn derfynol y cynllun wrthi'n cael ei chwblhau, ac felly rydym wedi gallu myfyrio ar ein dealltwriaeth gychwynnol o effeithiau'r penderfyniad hwnnw. Gan ddefnyddio blaenoriaethau newydd Llywodraeth a Senedd newydd y DU, yn ogystal â datblygiadau parhaus yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, byddwn yn paratoi Cynllun Corfforaethol pum mlynedd sydd wedi'i ddatblygu'n llawn dros y misoedd nesaf gan adeiladu ar y cynllun dros dro hwn. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'n rhanddeiliaid er mwyn datblygu'r strategaeth newydd hon a'i chyflwyno yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Yn y Cynllun Corfforaethol hwn, mae'r Comisiwn yn canolbwyntio ar ei bedwar nod, gan anelu at barhau i sicrhau ein bod yn cydbwyso ein rolau wrth gynnal etholiadau, fel rheoleiddiwr, ac fel arweinydd agweddau tra'n sicrhau hefyd ein bod yn sefydliad modern a gaiff ei redeg yn dda. Rydym yn adeiladu ar sylfaen cadarn: mae tudalennau olaf y ddogfen hon yn cynnwys trosolwg o'r pethau allweddol rydym wedi'u cyflawni yn y cyfnod 2018-20. Mae'r cynllun hwn yn nodi ein cynigion ar gyfer buddsoddi mewn cymorth gwell i'n rhanddeiliaid, gwybodaeth well i bleidleiswyr a systemau gwell i'n helpu i weithredu. Byddwn yn parhau i fynd ati i gefnogi diwygiadau i'r broses o gynnal etholiadau, gwella'r gwasanaeth a gynigir i bleidleiswyr a mynd i'r afael â'r pwysau o ran adnoddau a deimlir yn fawr iawn yn lleol.

Mae ein cyfrifoldebau statudol yn golygu ein bod mewn sefyllfa unigryw yn y sector i gydlynu, cyfarwyddo a rhoi arweinyddiaeth. Mewn sawl ffordd, mae gan y Comisiwn rôl hanfodol yn cefnogi ei randdeiliaid, ac yn y meysydd hyn y mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn ceisio mynd ati yn y modd mwyaf gweledol i atgyfnerthu ein dull o fynd i'r afael â'r heriau a amlinellwyd yn y tudalennau blaenorol.

Byddwn yn gwella ein cymorth i weinyddwyr etholiadol ledled y DU. Er ein bod eisoes yn rhoi arweiniad a chefnogaeth sy'n cael eu croesawu ac y mae llawer yn dibynnu arnynt, rydym yn bwriadu atgyfnerthu ein ffocws ar gefnogaeth er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r heriau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau etholiadol a gaiff eu rhedeg yn dda, fel gwneud mwy o waith i nodi a rhannu arferion da mewn gwasanaethau etholiadol a datblygu a chyflwyno adnoddau er mwyn helpu awdurdodau lleol i gynllunio a rheoli eu swyddogaethau gwasanaethau etholiadol.

Yn y DU, mae diwylliant o gydymffurfio â'r gyfundrefn reoleiddio a'i chefnogi; yn y blynyddoedd i ddod, byddwn yn ymdrechu o'r newydd i gefnogi pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr i gydymffurfio â'r rheolau cyn iddynt gael eu torri. Mae'r rhan fwyaf o bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr, asiantiaid ac ymgyrchwyr sefydledig yn gweithio'n galed ac yn ymdrechu'n ddiffuant i gydymffurfio â'r rheolau cyllid gwleidyddol, ac rydym am sicrhau nad yw camau gorfodi yn cael eu gweithredu fel mater o drefn, dim ond fel eithriad.

PAGE 7

Wrth i'n proses ddemocrataidd, prosesau ymgyrchu a'r cyd-destun rydym yn gweithredu ynddo newid, rydym am gefnogi pleidleiswyr i ddeall hyn, er mwyn eu helpu i gymryd rhan mewn etholiadau ac i gynyddu eu hyder ynddynt. Dros gyfnod y cynllun hwn, byddwn yn gwella ein gweithgarwch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd er mwyn helpu i wella dealltwriaeth o'r rheolau a'r systemau sydd ar waith mewn perthynas ag etholiadau a refferenda, a'r hyn y gall pleidleiswyr ei wneud i godi pryderon a chymryd rhan.

Ac yn olaf, byddwn yn cynnal gweithgareddau ehangach i gefnogi'r broses o gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth. Dros y cyfnod hwn o bum mlynedd, bydd y Comisiwn yn ymateb i flaenoriaethau'r Llywodraeth ar ddiwygiadau a datblygiadau etholiadol; ymysg y rhain mae cyflwyno'r gofyniad i bleidleiswyr ddangos prawf adnabod mewn gorsafoedd pleidleisio, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth newydd y DU, a rhoi deddfwriaeth diwygio etholiadol ar waith yng Nghymru a'r Alban a fydd yn ehangu'r etholfraint i grwpiau oedran iau neu gategorïau newydd o breswylwyr. Mewn rhai meysydd, rôl y Comisiwn yw bwydo'n

uniongyrchol i'r broses o sicrhau newid, megis yn ein gwaith i gefnogi diwygiadau i'r broses ganfasio flynyddol ar gyfer cofrestru etholiadol. Mewn meysydd eraill, gallwn chwarae rhan drwy alw a llywio trafodaeth.

Drwy ddatblygu ein gwaith, yn enwedig yn y pedwar maes hyn, gallwn barhau i chwarae rhan ganolog yn cefnogi etholiadau sy'n cael eu rhedeg yn dda a chyflwyno gwelliannau gwirioneddol i'r system. Byddwn yn parhau i adeiladu a chyflwyno achos am newidiadau allweddol i'n prosesau democrataidd, newidiadau a fydd yn gwneud gwahaniaethau gwirioneddol a chadarnhaol i weinyddwyr, i ymgyrchwyr ac i bleidleiswyr.

Wrth ymgymryd â'r holl waith sydd gennym, rydym yn ymateb i'r cydberthnasau newidiol sydd gennym â'r gweinyddiaethau yng ngwledydd y DU. Fel Comisiwn ar gyfer y DU gyfan, rydym yn parhau i fod yn falch o'r rhan rydym wedi ei chwarae hyd yma, yn gweithio gyda phob corff etholedig i ddarparu gwasanaeth effeithiol i bleidleiswyr ledled y DU. Edrychwn ymlaen at roi trefniadau ar waith sy'n adlewyrchu ein hatebolrwydd cynyddol i Senedd Cymru a Senedd yr Alban ac at weithio gyda nhw wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau etholiadol.

Bydd ein gwasanaeth i etholwyr y DU yn parhau i gael ei ategu gan ffocws pendant ar sicrhau gwerth am arian. Mae'r Cynllun hwn yn tynnu sylw at y strwythurau sydd gennym ar waith i wella ein heffeithlonrwydd a'n galluogi i ymateb yn gyflym i newidiadau yn ein hamgylchedd allanol sy'n effeithio ar ein blaenoriaethau, gan gynnwys digwyddiadau pleidleisio nas trefnwyd. Mae angen i'r Comisiwn gynnal ei hun fel sefydliad modern a gaiff ei redeg yn dda a sicrhau bod ganddo'r dechnoleg sy'n ofynnol i gefnogi ein ffyrdd o weithio. Byddwn yn gwella cydweithrediad ar draws timau a lleoliadau ac yn sicrhau bod deiliadaeth ein swyddfeydd yn fwy dwys a hyblyg.

Mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau bod gan y Comisiwn staff sy'n ddigon medrus a phrofiadol i gyflawni. Byddwn yn parhau i hyrwyddo diwylliant lle gall aelodau o staff gyflawni eu rolau yn effeithiol, mynd ati i reoli perfformiad yn unol â nodau'r Comisiwn a chynnig cyfleoedd datblygu a hyfforddiant i ddatblygu ein setiau unigryw o sgiliau yn fewnol a gwella ein heffeithiolrwydd.

Mae hwn yn gynllun uchelgeisiol. Mae'n nodi sut y byddwn yn parhau i ymateb i'r heriau o sicrhau ein bod yn gwireddu ein gweledigaeth o fod yn sefydliad sector cyhoeddus o'r radd flaenaf – sy'n buddsoddi ac yn gwella, yn arloesol, yn sicrhau gwerth gwych ac yn cyflawni'r hyn sydd bwysicaf i bleidleiswyr a deddfwyr.

**Bob Posner**, Prif Weithredwr

PAGE 8

## Ein rôl

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.

# Ein gweledigaeth a'n nodau

Ein gweledigaeth yw bod yn sefydliad sector cyhoeddus o'r radd flaenaf - yn arloesol, yn sicrhau gwerth gwych ac yn cyflawni'r hyn sydd bwysicaf i bleidleiswyr a deddfwyr.

Bwriadwn gyflawni'r weledigaeth hon drwy raglen waith pum mlynedd â phedwar nod:

**1. Galluogi'r gwaith o barhau i gynnal etholiadau a refferenda rhydd a theg**, gan ganolbwyntio ar anghenion yr etholwyr a mynd i'r afael ag amgylchedd sy'n newid o hyd er mwyn sicrhau bod pob pleidlais yn ddiogel ac yn hygyrch

**2. Sicrhau system reoleiddio y gellir ymddiried fwyfwy ynddi sy'n gynyddol dryloyw** ym maes cyllid gwleidyddol, goruchwylio cydymffurfiaeth, hyrwyddo dealltwriaeth ymhlith y rhai sy'n cael eu rheoleiddio a mynd ar drywydd achosion o dorri rheolau

**3. Bod yn ganolfan arbenigedd annibynnol uchel ei pharch**, gan ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth i wella tryloywder, tegwch ac effeithlonrwydd ein system ddemocrataidd ymhellach, a helpu i'w haddasu i'r oes fodern, ddigidol

**4. Sicrhau gwerth am arian**, gan wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau a'n harbenigedd er mwyn darparu gwasanaethau sy'n berthnasol i'r hyn sydd bwysicaf i bleidleiswyr. Mae'r nod hwn yn sail i'n holl waith ac yn ei gefnogi

PAGE 9

**Etholiadau a drefnwyd yn ystod cyfnod y Cynllun Corfforaethol**

Mae ein holl waith wedi ei osod yn erbyn cefndir o ddigwyddiadau etholiadol cynlluniedig. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ein cynlluniau a'n cyllidebau, rydym wedi cynnwys gwariant wrth baratoi ar gyfer digwyddiadau etholiadol, eu cyflawni ac adrodd arnynt. Mae'r tabl isod yn nodi'r rhai sydd wedi eu trefnu ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

| | |
|---|---|
| 2020 | Digwyddiadau pleidleisio arfaethedig a ohiriwyd, o ganlyniad i bandemig Covid-19, hyd at fis Mai 2021. |
| 2021 | Etholiadau Maer Llundain a Chynulliad Llundain<br>Llywodraeth leol Lloegr<br>Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Cymru a Lloegr)<br>Senedd Cymru<br>Senedd yr Alban<br>Etholiadau Maerol Awdurdod Cyfunol<br>Etholiadau Maerol lleol |
| 2022 | Cynulliad Gogledd Iwerddon<br>Llywodraeth leol yn Lloegr (yn cynnwys Llundain)<br>Llywodraeth leol yng Nghymru<br>Cynghorau'r Alban |

| | |
|---|---|
| | Etholiadau Maerol Awdurdod Cyfunol<br>Etholiadau Maeol lleol |
| 2023 | Llywodraeth leol Lloegr<br>Llywodraeth leol Gogledd Iwerddon<br>Etholiadau Maerol Awdurdod Cyfunol<br>Etholiadau Maerol lleol |
| 2024 | Senedd y DU<br>Etholiadau Maer Llundain a Chynulliad Llundain<br>Llywodraeth leol Lloegr<br>Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Cymru a Lloegr)<br>Etholiadau Maerol Awdurdod Cyfunol<br>Etholiadau Maerol lleol |

PAGE 10

## Ein nodau a'n blaenoriaethau

**1. Parhau i gynnal etholiadau rhydd a theg**

Galluogi'r gwaith o barhau i gynnal etholiadau a refferenda rhydd a theg, gan ganolbwyntio ar anghenion yr etholwyr a mynd i'r afael ag amgylchedd sy'n newid o hyd er mwyn sicrhau bod pob pleidlais yn ddiogel ac yn hygyrch.

**Ein rôl**

Mae'r nod hwn yn cynnwys ein rôl ganolog i oruchwylio'r broses o gynnal etholiadau a refferenda yng ngwledydd y DU. Rydym yn cefnogi gweinyddwyr etholiadol, ymgeiswyr a phleidiau ledled y Deyrnas Unedig drwy roi arweiniad a chyngor wedi ei deilwra, yn ogystal â gwybodaeth i bleidleiswyr am gofrestru a phleidleisio.

Mae 23 o ddigwyddiadau etholiadol wedi'u trefnu dros gyfnod y cynllun corfforaethol hwn ac yn y cyfnod cyn y digwyddiadau hynny, byddwn yn buddsoddi er mwyn cefnogi gweinyddwyr etholiadol, ymgeiswyr a phleidiau ledled y Deyrnas Unedig. Yn ogystal, byddwn yn sicrhau ein bod yn hollol barod i ymateb i unrhyw ddigwyddiadau etholiadol annisgwyl sy'n codi yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

Ar 12 Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y caiff yr etholiadau a drefnwyd ar gyfer mis Mai 2020 eu gohirio tan fis Mai 2021. Er bod y penderfyniad hwn i'w groesawu a'i fod yn golygu na fyddwn yn wynebu'r dasg o gynnal etholiadau mewn amgylchedd heriol iawn ym mis Mai 2020, mae'n golygu y bydd yr etholiadau arfaethedig ym mis Mai 2021 yn fwy na'r hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl yn flaenorol, a disgwylir i ddigwyddiadau gael eu cynnal bellach ledled Prydain Fawr gyfan, gyda mwy o ddigwyddiadau etholiadol yn cael eu cyfuno. Rydym eisoes yn gweithio i helpu'r gymuned etholiadol i ddeall goblygiadau'r penderfyniad i ohirio, ac i roi trefniadau ar waith i gefnogi'r broses o gynnal yr etholiadau hyn yn effeithiol, a bydd y gwaith hwn yn parhau drwy gydol 2020-21.

**Ein cynlluniau**

Byddwn yn parhau i **ddarparu cyngor a chanllawiau arbenigol i awdurdodau lleol, ymgeiswyr ac asiantiaid** i gefnogi'r broses o redeg digwyddiadau etholiadol yn dda, ac rydym yn bwriadu buddsoddi mewn gwasanaeth cefnogaeth ac arweiniad gwell yn cynnwys rhoi cyngor, herio a chynnig rhagor o gyfarpar ac adnoddau. Byddwn yn paratoi canllawiau ac adnoddau ar gyfer digwyddiadau etholiadol penodol, a byddwn yn parhau i ddatblygu tuag at ddarparu ein canllawiau mewn fformat newydd modern sy'n fwy hygyrch.

PAGE 11

Byddwn yn **cefnogi'r digwyddiadau etholiadol sydd wedi'u trefnu** dros gyfnod y cynllun corfforaethol hwn ac yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chyflwyno cynigion ar gyfer gwella hygyrchedd etholiadau er mwyn sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i gael gafael ar wybodaeth a phrosesau etholiadol.

Byddwn yn **cynnal ymgyrchoedd cofrestru pleidleiswyr** cyn pob etholiad mawr, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r angen i gofrestru ymysg yr holl bleidleiswyr cymwys, ond gan dargedu'n benodol grwpiau lle na cheir lefelau cofrestru digonol.

Mae'r gwaith i **gefnogi diwygiadau Llywodraethau'r DU i'r canfasiad blynyddol ar gyfer cofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr** yn parhau. Byddwn yn rhoi cyngor, arweiniad ac adnoddau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol i'w helpu i roi'r newidiadau hyn ar waith yn effeithiol. Byddwn hefyd yn gweithio i **gefnogi canfasiad 2021 yng Ngogledd Iwerddon**, gan gynnwys drwy ymgyrch codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd i dynnu sylw at yr hyn y mae angen i bobl ei wneud er mwyn sicrhau eu bod wedi'u cofrestru i bleidleisio.

Byddwn hefyd yn mynd ati i **ddatblygu strategaeth i gefnogi mwy o wydnwch o ran darparu gwasanaethau etholiadol lleol ac yn rhoi'r strategaeth honno ar waith**. Gan weithio gyda phartneriaid allweddol yn y gymuned etholiadol, byddwn yn ystyried mentrau fel cyflwyno rhaglen sefydlu a mentora ar gyfer Swyddogion Canlyniadau newydd a datblygu pecyn cymorth gwasanaethau etholiadol effeithiol.

Yn ogystal, byddwn yn cyhoeddi **safonau perfformiad newydd ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol**, a gaiff eu defnyddio gan y Comisiwn a gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ddeall a gwella eu perfformiad, gan sicrhau, yn y pen draw, bod y cofrestrau mor gywir a chyflawn â phosibl a bod pawb sy'n gymwys ac sydd am bleidleisio, yn gallu gwneud hynny.

Byddwn yn ymateb i agendâu polisi a deddfwriaethol llywodraethau Cymru a'r Alban mewn perthynas â **newidiadau i'r etholfraint** ac yn eu trafod, er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r cyhoedd a Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a byddwn yn buddsoddi mewn ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r newidiadau hyn.

Bydd ein **gwaith twyll etholiadol** yn parhau i gynnwys ymgysylltu'n agos â'r heddlu ac awdurdodau lleol, a chaiff ei gefnogi gan weithgarwch cyhoeddus fel ein hymgyrch 'Dy Bleidlais Di a Neb Arall'.

**Beth fydd effeithiau a buddiannau yr hyn a gyflawnir?**

Bydd y gwaith hwn yn sicrhau y gallwn roi cymorth gwell i awdurdodau lleol mewn perthynas â darparu gwasanaethau etholiadol, a gwella ein hymwneud â phartneriaid allweddol yn y gymuned etholiadol, megis Solace a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol. Bydd hyn yn cyfrannu at y gwaith o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i bleidleiswyr a chynnal etholiadau a systemau cofrestru effeithiol.

Bydd ein gwaith yn helpu i sicrhau y bydd pobl yn gynyddol yn ymddiried yng nghanlyniadau etholiadau ac yn eu derbyn, ac y bydd nifer yr heriau cyfreithiol llwyddiannus mor agos at ddim â phosibl.

PAGE 12

**2. System reoleiddio y gellir ymddiried fwyfwy ynddi sy'n gynyddol dryloyw**

Sicrhau system reoleiddio y gellir ymddiried fwyfwy ynddi sy'n gynyddol dryloyw ym maes cyllid gwleidyddol, goruchwylio cydymffurfiaeth, hyrwyddo dealltwriaeth ymhlith y rhai sy'n cael eu rheoleiddio a mynd ar drywydd achosion o dorri rheolau.

**Ein rôl**

Mae'r nod hwn yn cynnwys ein rôl reoleiddio, ac mae'n hanfodol i sicrhau'r tryloywder sydd wrth wraidd unrhyw ddemocratiaeth iach. Mae ein gwaith yn y maes hwn eisoes yn eang ei gwmpas, ac yn gynyddol ragweithiol, gan sicrhau cydymffurfiaeth drwy gefnogi pleidiau ac ymgeiswyr, drwy ymyriadau amser real a chamau gorfodi pan fydd angen.

Rydym yn cynnal cofrestrau pleidiau gwleidyddol a gaiff eu cyhoeddi ar-lein, gan roi hyder mai dim ond pleidiau sy'n bodloni'r profion cofrestru cyfreithiol sy'n cael ymddangos ar bapurau pleidleisio. Rydym hefyd yn cynnal cofrestr o ymgyrchwyr sy'n gwario symiau sylweddol o arian wrth ymgyrchu mewn etholiadau. Rydym yn sicrhau tryloywder o ran cyllid gwleidyddol y DU drwy gyhoeddi manylion am roddion a benthyciadau, cyfrifon blynyddol gan bleidiau cofrestredig, a gwariant ar ymgyrchu y mae'n ofynnol i bleidiau ac eraill roi gwybod i ni amdanynt.

Rydym yn rhoi cyngor ac arweiniad o ansawdd uchel er mwyn helpu pleidiau, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr i gydymffurfio â'r rheolau. Ac rydym yn cymryd camau, gan roi cosbau lle y bo'n briodol pan dorrir y rheolau, yn unol â Pholisi Gorfodi statudol y Comisiwn.

Rydym o'r farn bod gweithio i sicrhau cydymffurfiaeth cyn digwyddiad etholiadol yn well o lawer na gorfod cymryd camau gorfodi yn ddiweddarach. Felly rydym yn cynnig y dylid buddsoddi yn y gwaith o gefnogi cydymffurfiaeth drwy adnodd ar-lein sy'n hawdd i'w ddefnyddio a gwasanaeth rheoleiddio sy'n fwy ymatebol.

**Ein cynlluniau**

Byddwn yn **parhau i gynnal cofrestrau o bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr**, gan sicrhau bod pleidleiswyr yn glir ynghylch y pleidiau cofrestredig a'r ymgyrchwyr ar y papur

pleidleisio. Mae hyn yn cynnwys cwblhau adolygiad o ddisgrifiadau cofrestredig i sicrhau mai dim ond y sawl sy'n bodloni'r profion cyfreithiol a gaiff eu cynnwys, ac ystyried sut y caiff cyfansoddiadau a chynlluniau ariannol pleidiau eu llunio.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo tryloywder o ran cyllid gwleidyddol drwy **gyhoeddi data ariannol gan bleidiau ac ymgyrchwyr, gan gynnwys data sy'n gysylltiedig ag etholiadau.** Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn darparu **system Cyllid Gwleidyddol Ar-lein** newydd i helpu pleidiau ac ymgyrchwyr i gyflwyno eu ffurflenni ariannol yn effeithlon.

Er mwyn sicrhau cyfraddau uchel o gydymffurfio â'r rheolau a, thrwy hynnny, dryloywder i bleidleiswyr, byddwn yn parhau i roi **cyngor ac arweiniad amserol o ansawdd uchel** i bleidiau ac ymgyrchwyr er mwyn eu helpu i fodloni eu gofynion cyfreithiol. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi canllawiau ar gyfer yr etholiadau mawr yn 2021, gan ystyried effeithiau'r cyfuniad cymhleth o etholiadau fel y bo'n briodol, a datblygu codau ymarfer i ategu'r gyfraith mewn perthynas ag adrodd ar wariant etholiadau.

PAGE 13

Gan weithio gyda phleidiau ac ymgyrchwyr, byddwn yn datblygu fframwaith strategol newydd er mwyn sicrhau **cymorth rhagweithiol sy'n effeithiol ac yn cael effaith.**

Byddwn yn **gorfodi'r rheolau ynglŷn â chyllid gwleidyddol yn effeithiol**, gan sicrhau bod pleidleiswyr, pleidiau ac ymgyrchwyr yn hyderus y caiff y rheolau eu gorfodi yn gymesur ac yn effeithiol, o fewn ein pwerau presennol. Byddwn yn parhau i gyhoeddi canlyniad pob ymchwiliad, gan gynnwys cyhoeddi adroddiadau llawn pan fydd rheswm da dros wneud hynny, er mwyn sicrhau y gall pleidleiswyr, pleidiau ac ymgyrchwyr weld yr hyn rydym yn ei wneud i orfodi'r rheolau. Er mwyn rhwystro pobl rhag cyflawni troseddau, a sicrhau y gallwn ymateb mewn modd cymesur os byddant yn gwneud hynny, byddwn yn parhau i ddatblygu ein gallu i erlyn troseddau a amheuir. Byddwn yn ymgynghori ar y ffordd rydym yn defnyddio erlyniadau.

Byddwn hefyd yn ymateb i'r amgylchedd sy'n newid wrth i fwy o arian gael ei wario ar **ymgyrchu digidol**, drwy ymateb i bolisïau'r llywodraeth a'i hagendâu deddfwriaethol ar gyfer cyllid gwleidyddol a'u trafod, er mwyn sicrhau eu bod yn gwella tryloywder ar gyfer y cyhoedd a'u bod yn ymarferol ar gyfer ymgyrchwyr. Byddwn yn cryfhau ein hymwneud â chwmnïau cyfryngau cymdeithasol a darparwyr hysbysebion digidol eraill er mwyn sicrhau bod eu gwasanaethau a'u polisïau yn cefnogi tryloywder ar gyfer gweithgarwch ymgyrchu mewn etholiadau a refferenda.

Byddwn yn gweinyddu'r cynllun **grantiau datblygu polisi** ac yn sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol drwy wneud argymhellion amserol i Lywodraeth y DU ar gyfer unrhyw newidiadau angenrheidiol.

**Beth fydd effeithiau a buddiannau yr hyn a gyflawnwn?**

Bydd y gwaith hwn yn cynnig ymgysylltu cyflymach a mwy ymatebol â rhanddeiliaid, ac arweiniad sy'n edrych fwyfwy i'r dyfodol ac yn achub y blaen ar broblemau rheoleiddio

posibl. Dylem ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach ac ehangach o gyfreithiau cyllid ymgyrchu ymysg pleidiau ac ymgyrchwyr, gan arwain at gyfraddau uwch o gydymffurfiaeth.

Byddwn yn darparu amrywiaeth ehangach o adnoddau sy'n cefnogi pleidiau ac ymgyrchwyr yn uniongyrchol, sy'n ddigon hyblyg i gael eu defnyddio gyda gwahanol strwythurau a meintiau, ac sy'n cefnogi meysydd penodol o'r rheolau ynglŷn â chyllid ymgyrchu, ar sail cudd-wybodaeth strategol a gwaith sganio'r gorwel. Gyda'i gilydd, dylai hyn arwain at welliannau o ran ansawdd a dibynadwyedd y data ariannol a gaiff eu darparu gan bleidiau ac ymgyrchwyr ac a gyhoeddir gennym.

Bydd y cyhoedd yn gweld, a byddant yn hyderus, fod gwariant a chyllid pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn etholiadau'r DU yn dryloyw, ac y byddwn yn cymryd camau cymesur os bydd unrhyw un yn torri'r rheolau ar gyllid ymgyrchu.

PAGE 14

**3. Gweithredu fel canolfan arbenigedd annibynnol ac uchel ei pharch**

Bod yn ganolfan arbenigedd annibynnol uchel ei pharch, gan ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth i wella tryloywder, tegwch ac effeithlonrwydd ein system ddemocrataidd ymhellach, a helpu i'w haddasu i'r oes fodern, ddigidol.

**Ein rôl**

Mae'r nod hwn yn cyfleu ein rôl o ran arwain y sector drwy'r heriau y mae'n eu wynebu. Byddwn yn darparu'r dystiolaeth, y gwaith dadansoddi a'r mewnwelediad sydd eu hangen arnom ni ac ar eraill sy'n gweithio yn y maes, i nodi'r materion pwysicaf sy'n wynebu system ddemocrataidd y DU a mynd i'r afael â nhw.

Byddwn hefyd yn monitro newidiadau i'r system cofrestru etholiadol ac yn defnyddio arolygon barn ar ôl etholiad a'n harolwg blynyddol ar gyfer y DU gyfan i fonitro barn y cyhoedd am faterion etholiadol a'u profiadau wrth gymryd rhan mewn etholiadau. Mae'r data hyn yn llywio ein penderfyniadau a'n hargymhellion polisi, yn ein helpu i ddylanwadu ar ddatblygiadau ym meysydd deddfwriaeth, polisi ac ymarfer, ac yn ein helpu i sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn sydd bwysicaf i bleidleiswyr. Byddwn yn parhau i wneud gwaith ymchwil a chyflwyno adroddiadau ar gywirdeb a chyflawnrwydd cofrestrau etholiadol y DU.

Mae dyletswydd statudol ar y Comisiwn i gyflwyno adroddiadau ar etholiadau a refferenda a pharhau i adolygu'r gyfraith etholiadol. Byddwn hefyd yn parhau i graffu ar ddeddfwriaeth etholiadol newydd a darparu briffiadau arbenigol i lywodraethau a deddfwrfeydd ar gynigion deddfwriaethol.

Mae hyder pleidleiswyr yn ein system etholiadol yn hanfodol, ac mae'n dibynnu ar hyder yn y wybodaeth a gynigir. Felly rydym yn bwriadu buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu ymwybyddiaeth pleidleiswyr ac addysg, gan ganolbwyntio'n benodol ar ymgyrchu digidol.

**Ein cynlluniau**

Byddwn yn **rhoi cyngor arbenigol a chymorth** i bleidiau gwleidyddol, ymgyrchwyr, llywodraethau a'r cyhoedd er mwyn llywio newidiadau i bolisïau, addysgu'r cyhoedd a rhoi gwybodaeth iddynt, a hyrwyddo trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ym mhob rhan o'r sector etholiadol. Bydd hyn yn cynnwys cymorth cysylltiadau cyhoeddus a materion cyhoeddus ar gyfer polisïau cyllid gwleidyddol y Llywodraeth a'r gwaith o ddiwygio cyfraith etholiadol, swyddogaeth swyddfa'r wasg i reoli ymholiadau gan y cyfryngau a'r cyhoedd, a rhoi cyngor arbenigol a thystiolaeth i lywio ymgyngoriadau polisi ac adolygiadau.

Byddwn yn parhau i **adrodd ar y broses o weinyddu etholiadau** er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio gwersi a ddysgwyd i wella'r broses o gynnal digwyddiadau yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo **newidiadau i'n prosesau democrataidd ac ennyn cefnogaeth iddynt** drwy ymgyrchoedd penodol a chydweithio â phartneriaid allweddol a rhanddeiliaid. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried opsiynau ar gyfer gwneud etholiadau'n fwy hygyrch a moderneiddio'r system gofrestru drwy wneud defnydd gwell o gofnodion data cyhoeddus sy'n bodoli eisoes.

PAGE 15

Byddwn yn **datblygu ein sail dystiolaeth** er mwyn sicrhau dealltwriaeth well o'r amgylchedd etholiadol, materion sy'n datblygu, risgiau a chyfleoedd a allai effeithio ar waith y Comisiwn yn y tymor canolig i'r hirdymor, a'n galluogi i gynllunio yn unol â hynny. Byddwn yn casglu data a gwybodaeth ar ôl etholiadau, gan gynnwys data ar agweddau'r cyhoedd yn ogystal â phrofiadau gweinyddwyr etholiadau ac ymgeiswyr, er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r materion a wynebir gan ein cwsmeriaid, gan gynnwys y cyhoedd ac awdurdodau lleol.

Byddwn yn **gwella ein gweithgarwch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd** er mwyn helpu pleidleiswyr i ddeall y rheolau a'r systemau sydd ar waith mewn perthynas ag etholiadau a refferenda, a'r hyn y gallant ei wneud i godi pryderon a chymryd rhan. Bydd hyn yn cynnwys gweithgarwch mewn perthynas ag etholiadau sy'n gysylltiedig â'r technegau ymgyrchu digidol a gaiff eu defnyddio fwyfwy i ymgysylltu â phleidleiswyr, a chynhyrchu adnoddau addysgu mwy hirdymor i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Un o'n gwerthoedd corfforaethol yw hyrwyddo tryloywder, a byddwn yn anelu at **wneud ein gwybodaeth yn fwy hygyrch** i bartneriaid a'r cyhoedd drwy ddatblygu ein gwefan gorfforaethol newydd ymhellach drwy ddiweddaru ac adolygu'r cynnwys ymchwil a geir arni. Bydd hyn yn cynnwys prosiect i ddefnyddio data agored ac adnoddau digidol i wella hygyrchedd a chyflwyno'r wybodaeth mewn fformatau gweladwy hygyrch.

Byddwn yn bwrw ymlaen â'n **hymchwil a'n gwaith dadansoddi data mewn achosion o dwyll etholiadol** er mwyn nodi unrhyw newidiadau a allai helpu i fynd i'r afael â'r mater, ac i hyrwyddo ymgysylltu â llywodraethau'r DU a'u hagendâu deddfwriaethol, megis cynnig Llywodraeth y DU i gyflwyno profion adnabod i bleidleiswyr ledled Prydain Fawr.

Drwy ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol llawn, ac mewn ymgynghoriad â'n rhanddeiliaid, byddwn yn **datblygu rhaglen newydd o waith** ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Nod y gwaith

hwn fydd gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i'r gwaith o helpu'r sector i nodi'r cyfleoedd a'r heriau mwyaf arwyddocaol y mae'n eu hwynebu, a chynllunio ar eu cyfer.

**Beth fydd effeithiau a buddiannau yr hyn a gyflawnwn?**

Cyfeirir at ein tystiolaeth a'n barn arbenigol mewn dadl gyhoeddus ar ein system a'n prosesau democrataidd, ac mae cynigion y llywodraeth yn adlewyrchu ein blaenoriaethau a'n hargymhellion ar gyfer newid

PAGE 16

**4. Sicrhau gwerth am arian**

Sicrhau gwerth am arian, gan wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau a'n harbenigedd er mwyn darparu gwasanaethau sy'n berthnasol i'r hyn sydd bwysicaf i bleidleiswyr. Mae'r nod hwn yn sail i'n holl waith.

**Ein rôl**

Fel corff sy'n atebol i Senedd y DU yn uniongyrchol, mae'r Comisiwn yn destun disgwyliadau Senedd y DU o ran rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian, yn yr un modd ag y mae cyrff cyhoeddus eraill. Mae bodloni'r safonau hyn, neu ragori arnynt, yn hanfodol i'r ffordd y mae'r Comisiwn yn rheoli ei hun o ddydd i ddydd. Caiff ein hatebolrwydd i Senedd y DU ei arfer drwy Bwyllgor y Llefarydd ar y Comisiwn Etholiadol, sef un o bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin, a gadeirir gan y Llefarydd ac sy'n cynnwys gweinidogion yn gwasanaethu ar sail ex-officio yn ogystal ag aelodau'r meinciau cefn a benodir gan y Llefarydd.

Yr hyn sy'n allweddol i'n llwyddiant dros y pum mlynedd nesaf a thu hwnt yw sicrhau bod yr adnoddau cywir ar waith gennym i gefnogi'r broses o gyflawni'r cynllun hwn, gan gynnwys yr angen cychwynnol am wydnwch i sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn briodol i bandemig COVID-19. Mae'r nod sylfaenol hwn yn darparu ffocws ar gyfer gweithgareddau sy'n cefnogi'r sefydliad ac yn sicrhau bod y bobl fedrus a'r systemau priodol gennym; bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus; a'n bod yn buddsoddi mewn dulliau o foderneiddio ein seilwaith a'n systemau er mwyn sicrhau cysondeb a gwella gwerth am arian. Mae hyn yn cynnwys darparu swyddogaethau adnoddau dynol, cyllid, cynllunio, cyfreithiol, cymorth a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) o ansawdd uchel yn gyson.

**Ein cynlluniau**

Byddwn yn **rhoi ein Strategaeth Pobl newydd ar waith** er mwyn hyrwyddo diwylliant sy'n cynnig y ffordd orau i dimau staff allu cyflawni eu rolau'n effeithiol.

Byddwn yn parhau i weithio ar ein prosiect Ffyrdd o Weithio er mwyn **sicrhau newidiadau busnes a weithredir yn ddigidol**, i adlewyrchu'r disgwyliadau sydd ar gyflogwyr modern, a sicrhau y gall y cyfleusterau TGCh craidd gefnogi'r newidiadau hyn. Ymysg y buddsoddiadau o ran systemau busnes a gynllunnir dros y blynyddoedd nesaf, mae system

rheoli achosion rheoleiddio newydd i gefnogi'r gwaith o ymgymryd ag erlyniadau, System Rheoli Achosion Cleientiaid newydd i olrhain cysylltiadau â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, ac adnoddau adrodd ar ôl etholiadau.

Rydym wedi llwyddo i roi system cynllunio a pherfformiad corfforaethol newydd ar waith, sy'n sicrhau bod y sefydliad yn cael un darlun integredig o weithgarwch busnes strategol a gweithredol, gwaith cyflawni prosiectau, risgiau a pherfformiad. Mae hyn bellach yn ein galluogi i ganolbwyntio ar ddatblygu **galluogrwydd a dealltwriaeth well o'r broses o gyflawni ein nodau strategol** a'r effaith rydym yn ei chael ar gyfer ein cwsmeriaid.

PAGE 17

Byddwn yn parhau i weithio gyda Senedd Cymru a Senedd yr Alban i **roi ein trefniadau atebolrwydd newydd ar waith**, gan gynnwys fformiwla cyllido newydd a chynlluniau busnes ar gyfer Cymru a'r Alban.

Mae ein gallu i ddiwallu anghenion pleidleiswyr, deddfwrfeydd, pleidiau gwleidyddol a phob un o'n rhanddeiliaid eraill yn dibynnu'n anuniongyrchol ar y ffaith bod gan y Comisiwn wasanaeth cyfreithiol arbenigol. Byddwn yn **adolygu ac yn adnewyddu ein ffordd o ddarparu gwasanaethau cyfreithiol** sy'n bodloni'r gofynion newidiol a chynyddol sydd ar y Comisiwn mewn ffordd effeithiol ac effeithlon, ac yn  lleihau'r defnydd o arbenigedd allanol costus. Bydd y fenter hon yn sefydlu sail greiddiol, fwy sefydlog o gyfreithwyr yn dilyn trefniadau gwaith newydd, a gaiff eu hategu gan brosesau rheoli ansawdd a systemau rheoli achosion cadarn.

Byddwn yn **ymgorffori prosesau rheoli ansawdd** drwy bob un o'n gwasanaethau a'n swyddogaethau, gan adeiladu ar yr ymarfer cadarn sydd ar waith yn ein timau rheoleiddio. Bydd hyn yn llywio'r gwaith o ddatblygu ein systemau a'n prosesau ac yn ymgorffori ansawdd a gwelliant cyson yn ein diwylliant.

**Beth fydd effeithiau a buddiannau yr hyn a gyflawnwn?**

Bydd gwella ein gwaith adrodd ar gynllunio a pherfformiad yn sicrhau y gellir gwella gwaith monitro a rheoli ym mhob un o'n nodau, a thrwy hynny ysgogi effaith well ar y materion sydd bwysicaf i bleidleiswyr.

Mae ein prosiect Ffyrdd o Weithio yn cyfuno gwelliannau technolegol gwirioneddol a newidiadau i arferion ac amodau gweithio. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn arwain at welliannau gwirioneddol o ran cynhyrchiant drwy gynnig ffyrdd gwell o weithio ar draws timau a mwy o hyblygrwydd. Nod ein strategaeth pobl yw sicrhau bod gennym aelodau o staff sydd wedi'u grymuso ac sy'n barod i ymgysylltu er mwyn cyflawni ein hagenda uchelgeisiol Rydym yn disgwyl y bydd hyn i'w weld mewn sgoriau uwch o ran ymgysylltu â staff a chyfraddau cadw staff uwch.

Fodd bynnag, caiff effaith wirioneddol y newidiadau hyn ei hadlewyrchu ym mesurau perfformiad ac effaith y nod hwn, yn ogystal â nodau eraill, wrth i ni sicrhau bod y nodau mewnol hyn yn arwain at welliannau o ran ein darpariaeth.

**Ffocws ar Ogledd Iwerddon**

Mae'r prosesau o adfer Cynulliad Gogledd Iwerddon a ffurfio Gweithrediaeth ym mis Ionawr 2020 wedi rhoi rhywfaint o sefydlogrwydd ar ôl tair blynedd, ac mae hyn i'w groesawu. Hyd yn oed yn ystod y cyfnod hir o ansicrwydd, roedd pwyslais o hyd ar wella'r gwasanaethau etholiadol a ddarperir i bleidleiswyr yng Ngogledd Iwerddon. Er enghraifft, gall darpar bleidleiswyr bellach gofrestru'n hawdd ac yn gyflym ar-lein ers i'r broses cofrestru digidol gael ei chyflwyno ym mis Mehefin 2018. Gellir gweld effaith hyn yn glir a gwnaed bron i chwarter miliwn o geisiadau i gofrestru yn ystod 2019.

Yn ogystal â hyn, ers mis Gorffennaf 2017, rydym bellach yn cyhoeddi gwybodaeth chwarterol am roddion a benthyciadau y rhoddwyd gwybod i ni amdanynt gan bleidiau gwleidyddol a derbynwyr rheoledig eraill. Mae tryloywder yn hanfodol er mwyn sicrhau hyder y cyhoedd yn ein democratiaeth felly mae'n bwysig bod y wybodaeth hon bellach ar gael i'w gweld ac yn destun proses graffu gyhoeddus.

Fodd bynnag, ni ddylem laesu dwylo. Rydym yn dal i fod o'r farn y dylid cyhoeddi'r wybodaeth sydd gennym am roddion a benthyciadau y rhoddwyd gwybod i ni amdanynt rhwng mis Ionawr 2014 a mis Gorffennaf 2017. Gwnaed ymrwymiad i adolygu'r gyfundrefn rhoddion a benthyciadau yn flaenorol gan Swyddfa Gogledd Iwerddon a byddem yn annog Llywodraeth y DU i weithredu ar hyn. O'n safbwynt ni, rydym am ymgysylltu â'r cyhoedd ledled Gogledd Iwerddon a gwrando arnynt mewn perthynas â'r mater hwn er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r broses hon.

Canfu ein hasesiad diweddaraf o'r broses cofrestru etholiadol yng Ngogledd Iwerddon fod angen gwneud mwy er mwyn sicrhau bod y broses o gofrestru i bleidleisio yn haws i bawb. Canfu ein hymchwil fod 1 o bob 4 etholwr cymwys yng Ngogledd Iwerddon heb eu cofrestru'n gywir yn eu cyfeiriad presennol, sy'n cyfateb i rhwng 360,000 a 430,000 o bobl. Un peth sy'n peri pryder penodol yw'r ffaith bod pobl ifanc yn llai tebygol o hyd o fod wedi cofrestru, a dim ond 51% o bobl rhwng 18 a 34 oed sydd wedi'u cofrestru'n gywir.

Bwriadwyd cynnal canfasiad llawn o etholwyr yn 2020, ond mae bellach wedi'i ohirio i 2021 o ganlyniad i bandemig Covid-19. Er hyn, bydd hyn yn gyfle amserol i fynd i'r afael â'r dirywiad yng nghywirdeb a chyflawnrwydd y cofrestrau etholiadol, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda Phrif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon eleni er mwyn cefnogi ei pharatoadau ar gyfer yr ymarfer hwn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ddatrysiad cyflym ynddo'i hun, a rhaid gwneud mwy er mwyn moderneiddio ein prosesau cofrestru etholiadol. Er enghraifft, gallai gwneud defnydd gwell o ddata cyhoeddus fod yn allweddol i wella a diwygio'r broses cofrestru etholiadol, gan sicrhau ei bod yn haws i'r Swyddfa Etholiadol yng Ngogledd Iwerddon ddiweddaru'r cofrestrau drwy gydol y flwyddyn.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Phrif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon, Llywodraeth y DU a'n rhanddeiliaid ledled Gogledd Iwerddon i roi'r newidiadau pwysig hyn ar waith.

**Ffocws ar yr Alban**

Bydd y cyfnod a gwmpesir yn y cynllun corfforaethol hwn yn gyfnod heriol i'r Comisiwn Etholiadol a'r gymuned etholiadol ehangach yn yr Alban wrth i ni weithio i roi'r newidadau deddfwriaethol a gyflwynwyd gan Senedd y DU a Senedd yr Alban ar waith. Mae rhai o'r newidiadau hyn yn amlygu gallu deddfwrfeydd i gydweithredu er mwyn cyflwyno newidiadau ar y cyd mewn perthynas â materion cofrestru lle mae cysondeb yn bwysig i bleidleiswyr, ond rydym hefyd yn gweld bod rhywfaint o wahaniaeth yn y gyfraith etholiadol sy'n ymwneud ag etholiadau yn yr Alban.

Mae Senedd yr Alban wedi pasio bil sy'n nodi'r rheolau sylfaenol ar gyfer refferenda yn yr Alban yn y dyfodol. Mae Bil Refferenda (yr Alban) yn cyflwyno fframwaith ar gyfer pob refferendwm a gaiff ei alw gan Senedd yr Alban yn y dyfodol. Yn ystod hynt y Bil drwy'r Senedd, diwygiwyd y ddeddwriaeth ddrafft er mwyn gweithredu ein hargymhellion ar gyfer cynnydd sylweddol yn lefel y dirwyon sydd ar gael i ni; pwerau ehangach i gael gafael ar wybodaeth y tu hwnt i ymchwiliadau ffurfiol; a rheolau effeithiol i'w gwneud yn ofynnol rhoi argraffnodau ar ddeunydd ymgyrchu digidol.

Mae dau fil arall yn mynd drwy'r broses ddeddfwriaethol. Mae Bil Etholiadau (Etholfraint a Chynrychiolaeth) yr Alban yn ehangu'r etholfraint ar gyfer etholiadau ar faterion sydd wedi'u datganoli yn yr Alban i gynnwys pob dinesydd tramor sy'n byw yn gyfreithlon yn yr Alban, yn ogystal â charcharorion sy'n bwrw dedfryd o hyd at flwyddyn. Bydd sicrhau bod y rheini sydd newydd gael yr etholfraint yn deall eu bod yn gymwys i gofrestru a phleidleisio ac yn gwybod sut i wneud hynny yn un o'n prif feysydd gwaith yn y cyfnod cyn etholiad Senedd yr Alban yn 2021 ac etholiadau'r cynghorau yn 2022 a byddwn yn gwneud hyn ochr yn ochr â'n gwaith ehangach i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd.

Mae gan Fil Etholiadau (Diwygio) yr Alban hefyd oblygiadau ar gyfer ein gwaith dros gyfnod y cynllun corfforaethol hwn. Mae'n gwneud newidiadau i'r broses o reoleiddio ymgeiswyr mewn etholiadau cynghorau yn yr Alban er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol â'r rheolaethau ar gyfer pob etholiad arall yn y DU. Mae hefyd yn cyflwyno Codau Ymarfer ar gyfer gwariant yn etholiadau Senedd yr Alban ac etholiadau'r cynghorau. Bydd angen canllawiau a chyngor technegol wedi'u diweddaru ar gyfer y ddau. Mae'r Bil hefyd yn cyflwyno newidiadau i rôl ac atebolrwydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol ar gyfer yr Alban a'r Comisiwn Etholiadol: yn y dyfodol, caiff cylch gwaith y Bwrdd ei ehangu i gynnwys etholiadau Senedd yr Alban, sy'n newid rydym wedi bod yn galw amdano ers 2009. Byddwn yn atebol yn ffurfiol i Senedd yr Alban am y gwaith a wnawn mewn perthynas ag etholiadau sydd wedi'u datganoli yn yr Alban, ac yn cael ein hariannu'n uniongyrchol ganddi am y gwaith hwn.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn Senedd yr Alban, y Bwrdd Rheoli Etholiadol ac eraill yn yr Alban i roi'r agenda hon ar waith.

**Ffocws ar Gymru**

Yn 2020, bydd gwaith yn dechrau ar roi rhaglen diwygio etholiadol bwysig ar waith yng Nghymru a fydd yn cael effaith sylweddol ar etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol yn y dyfodol, yn ogystal ag ar y modd y mae'r Comisiwn Etholiadol ei hun yn gweithredu yng Nghymru.

Mae gennym Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 bellach a fydd, ymysg pethau eraill, yn galluogi dau grŵp newydd i gymryd rhan yn etholiadau Senedd 2021: pobl ifanc 16 a 17 oed, a dinasyddion tramor sy'n byw yng Nghymru.

Rydym eisoes yn gweithio gyda'r gymuned etholiadol ehangach a grwpiau â diddordeb arbennig er mwyn sicrhau bod y pleidleiswyr newydd hyn yn cael gwybod am y newidiadau a gyflwynir gan y Ddeddf hon fel y gallant gymryd rhan yn effeithiol yn y cyfnod canfasio nesaf yn 2020 ac yn etholiad cyffredinol nesaf Cymru yn 2021.

Rydym hefyd yn ymrwymedig i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Senedd ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) wrth iddo fynd ar ei hynt drwy'r broses ddeddfwriaethol. Gallai'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil arwain at newidiadau mawr mewn etholiadau llywodraeth leol yn y dyfodol a byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod y diwygiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd sy'n golygu y rhoddir blaenoriaeth i fuddiannau pleidleiswyr.

Yn ogystal â'r newid etholiadol hwn, o fis Medi 2020, byddwn hefyd, am y tro cyntaf, yn atebol i'r Senedd am ein gwaith ar etholiadau yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru wrth sicrhau bod y trefniadau adrodd ac ariannu newydd hyn yn amserol, yn briodol ac yn effeithiol.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n holl bartneriaid yng Nghymru – o Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru i bleidiau gwleidyddol, o Lywodraethau i'r Senedd, ac o'r cyhoedd i'r heddlu – yn ystod cyfnod prysur ond gwerth chweil i'n democratiaeth yng Nghymru. Diolch yn fawr iawn!

PAGE 21

**Gweithgareddau allweddol 2018-20**

Roedd ein cynllun blaenorol yn cwmpasu'r cyfnod 2018-23. Roedd yn nodi agenda uchelgeisiol ar gyfer newid a gwella'r system etholiadol. Uchod, rydym wedi nodi ein cynlluniau i barhau i ddatblygu'r agenda hon, i fuddsoddi yn y gwaith o gefnogi ein rhanddeiliaid ac i foderneiddio ein darpariaeth. Yn yr adran hon, rydym yn nodi rhai o'r camau a gymerwyd gennym eisoes i adeiladu sylfaen cadarn ar gyfer newid yn y dyfodol.

**Parhau i gynnal etholiadau rhydd a theg**

• Wedi cefnogi'r broses o gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau etholiadol yn cynnwys etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, etholiadau Maerol lleol ac

etholiadau Maerol Awdurdod Cyfunol mewn rhannau o Loegr, 5 is-etholiad seneddol yn y DU, Etholiad Senedd Ewrop ac Etholiad Cyffredinol Senedd y DU.

• Wedi cynnal ymgyrchoedd llwyddiannus i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd cyn pob digwyddiad pleidleisio mawr, gan gynyddu nifer y pleidleiswyr sy'n cofrestru gan ganolbwyntio'n benodol ar grwpiau lle na cheir lefelau cofrestru digonol

• Wedi cwblhau'r broses o arsylwi ar ddeisebau adalw yng Ngogledd Antrim, Peterborough a Brycheiniog a Sir Faesyfed, a chyhoeddi ein hargymhellion ar gyfer gwella'r broses ddeisebu

• Wedi cyhoeddi ein safbwyntiau ar gynigion llywodraethau'r DU i ddiwygio'r canfasiad cofrestru etholiadol blynyddol, er mwyn llywio'r ddeddfwriaeth a fydd yn sicrhau y bydd y newidiadau ar waith o ganfasiad 2020

• Wedi gweithio gyda Phrif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon a Swyddfa Gogledd Iwerddon i gefnogi'r gwaith o lansio proses cofrestru etholiadol ar-lein yno, gan ei gwneud mor syml a hygyrch i gofrestru i bleidleisio yno â gweddill y DU

• Wedi cyhoeddi Cod Ymarfer diwygiedig i Arsylwyr Etholiadol ac wedi moderneiddio'r broses ar gyfer gwneud cais i fod yn arsylwr

**System reoleiddio gynyddol dryloyw y gellir ymddiried fwyfwy ynddi**

• Wedi cynnal y cofrestrau o bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr mewn etholiadau, yn cynnwys ychwanegu, diweddaru a dileu cofnodion yn ôl yr angen, a sicrhau y gall pleidleiswyr fod yn hyderus mai dim ond pleidiau sy'n bodloni'r profion cyfreithiol sy'n cael eu cofrestru

• Wedi cyhoeddi data ariannol ar roddion a benthyciadau pleidiau gwleidyddol, cyfrifon blynyddol a gwariant yn Etholiad Senedd Ewrop

• Wedi gorfodi'r cyfreithiau cyllid gwleidyddol yn y DU mewn ffordd gadarn ac effeithiol, gan ddefnyddio ein pwerau cyfreithiol i ymchwilio i droseddau posibl a chyhoeddi canlyniad pob ymchwiliad

• Wedi cyhoeddi canllawiau ar y rheolau gwariant ar gyfer Etholiad Senedd Ewrop ac Etholiad Cyffredinol Senedd y DU, ac wedi cefnogi hyn drwy roi cyngor pwrpasol i bleidiau ac ymgyrchwyr ac ymgysylltu â nhw

PAGE 22

• Wedi cyflwyno codau gwariant drafft ar gyfer ymgeiswyr a phleidiau i Lywodraeth y DU, ar ôl eu datblygu yn dilyn proses o ymgynghori ac ymgysylltu â phleidiau, ymgeiswyr ac arbenigwyr eraill

• Wedi gwneud cynnydd sylweddol ar y gwaith o ailddatblygu ein system Cyllid Gwleidyddol Ar-lein er mwyn gwella effeithlonrwydd y broses a ddefnyddir gan bleidiau ac ymgyrchwyr i gofrestru a chyflwyno ffurflenni ariannol

**Gweithredu fel canolfan arbenigedd annibynnol ac uchel ei pharch**

• Wedi gwerthuso cynlluniau peilot Llywodraeth y DU, a brofodd y broses o ofyn am brawf adnabod gan bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio mewn nifer o awdurdodau lleol yn Lloegr yn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2018 a 2019

• Wedi cwblhau cyfres o astudiaethau dichonoldeb yn archwilio opsiynau ar gyfer symud tuag at system cofrestru pleidleiswyr fwy effeithlon a diogel sydd wedi'i llywio gan ddata yn y DU. Mae'r astudiaethau bellach yn helpu i lywio'r drafodaeth ar ddyfodol cofrestru etholiadol

• Wedi cyflwyno adroddiad manwl ar gywirdeb a chyflawnrwydd y cofrestrau etholiadol yn y DU, gan amlygu'r grwpiau hynny o bobl sy'n llai tebygol o fod wedi cofrestru

• Wedi cyhoeddi adroddiad ar ymgyrchu digidol, gan nodi pecyn o argymhellion i wella tryloywder i bleidleiswyr, yn ogystal â'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eu hunain. Mae ein hargymhellion wedi cael eu trafod yn eang yn neddfwrfeydd y DU a thu hwnt, ac wedi ennyn cefnogaeth gan amrywiaeth eang o gyrff seneddol, cyd-reoleiddwyr, melinau trafod a sylwebyddion

• Wedi dwyn ynghyd grŵp o reoleiddwyr i drafod a llywio'r broses o lywodraethu materion o ddiddordeb rheoleiddiol cyffredin, yn cynnwys ymgyrchu digidol a gwirionedd cynnwys ymgyrchu. Mae hyn wedi meithrin dealltwriaeth a rennir o weithgarwch perthnasol pob sefydliad, er mwyn helpu i sicrhau cydweithio a'r defnydd gorau o adnoddau cyhoeddus

• Wedi cynnal trafodaethau manwl â Facebook, Twitter a Google ynghylch eu polisïau ar gyfer hysbysebion etholiadol ar-lein, er mwyn llywio eu cynigion a'n safbwyntiau polisi ein hunain ynghylch y ffordd orau o sicrhau tryloywder

**Sicrhau gwerth am arian**

• Wedi lansio ein gwefan gorfforaethol newydd sy'n gwella ein gwasanaethau digidol yn sylweddol, yn diwallu anghenion defnyddwyr yn fwy effeithiol, ac yn darparu gwybodaeth mewn ffyrdd hawdd eu defnyddio a chwbl hygyrch

• Wedi diwygio ein hunaniaeth gorfforaethol, gan sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gyflwyno mewn modd cyson, hygyrch a hawdd ei adnabod, yn unol â'n gwerthoedd sefydliadol

• Wedi rhoi systemau newydd ar waith i sicrhau effeithlonrwydd a gwell tryloywder ar gyfer swyddogaethau corfforaethol allweddol megis caffael, rheoli prosiectau, perfformiad a llywodraethu

• Wedi datblygu Strategaeth Pobl newydd, er mwyn cefnogi'r defnydd gorau o'n hadnoddau

• Wedi meincnodi a diweddaru ein Polisïau Cofnodion yn barod ar gyfer nodi ugainmlwyddiant y sefydliad

PAGE 23

• Wedi cyflawni amcanion prosiect Ffyrdd o Weithio drwy ddatblygu ein harferion gwaith er mwyn adlewyrchu'r disgwyliadau ar gyflogwr modern a sicrhau bod y cyfleusterau TGCh craidd yn cefnogi'r newidiadau hyn

• Wedi gwella ein sylfaen sgiliau ym mhob rhan o'r sefydliad drwy raglen dysgu a datblygu gynhwysfawr i gyflogeion a buddsoddi mewn adnoddau technegol arbenigol

PAGE 24

**Rheoli ein costau**

Mae ein cyllideb yn cynnwys gwariant ar baratoi ar gyfer digwyddiadau etholiadol wedi'u trefnu, cefnogi'r gwaith o'u cynnal, a chyflwyno adroddiadau arnynt.

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y cynllun hwn, byddwn yn cefnogi'r gwaith o gynnal pob etholiad llywodraeth leol, etholiadau Senedd y DU, etholiadau datganoledig Seneddau a Chynulliadau, etholiadau Maerol, etholiadau Cynulliad Llundain ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Mae'r tabl isod yn cynnwys y gofynion a ragwelir gennym o ran adnoddau i gefnogi'r digwyddiadau cynlluniedig hyn. Mae hyn yn cynnwys ein hamcangyfrifon cychwynnol sy'n adlewyrchu effaith gohirio digwyddiadau pleidleisio o mis Mai 2020 i fis mai 2021. Caiff ein cynlluniau adnoddau eu diweddaru ymhellach os bydd digwyddiadau neu ddeddfwriaeth y Llywodraeth yn newid.

Mae cyllideb y Comisiwn ar gyfer digwyddiadau etholiadol yn ariannu costau llunio a dosbarthu canllawiau i Swyddogion Canlyniadau a'u staff, a rhoi arweiniad ad hoc iddyn nhw ac i bleidiau, ymgeiswyr, ymgyrchwyr ac aelodau'r cyhoedd. Mae hefyd yn ariannu ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus am brosesau cofrestru pleidleiswyr ac uniondeb etholiadol, ein harsylwadau o'r etholiad, ymchwil ar ôl digwyddiadau pleidleisio ar y modd y cawsant eu cynnal, ac adroddiadau cysylltiedig. Caiff costau rheoleiddio ariannol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r digwyddiad penodol eu cynnwys hefyd.

Mae'r ffaith bod y digwyddiadau pleidleisio a drefnwyd ar gyfer mis Mai 2020 wedi cael eu canslo yn golygu gostyngiad yn ein gwariant ar ddigwyddiadau a drefnwyd. Yn benodol, mae'r canfasiad a drefnwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon wedi'i ohirio tan 2021, ac nid yw'r gwariant ar ymgyrchu a fyddai wedi digwydd cyn y digwyddiadau pleidleisio yn ofynnol mwyach heblaw am ddarpariaeth ar gyfer costau posibl yn sgil gohirio etholiadau mis Mai 2020. Fodd bynnag, mae angen cwblhau gwaith sy'n deillio o Etholiad Cyffredinol Senedd y DU ym mis Rhagfyr 2019. Ac mae gwaith arall a drefnwyd i gefnogi a gwella'r broses ddemocrataidd fel y canfasiadau yng Nghymru a'r Alban a'r gwariant ar lythrennedd digidol ac addysg pleidleiswyr yn parhau. Bellach, bydd mwy o ddigwyddiadau etholiadol na'r hyn a drefnwyd yn wreiddiol yn cael eu cynnal ym mis Mai 2021 ynghyd â chyfuniadau cymhleth o

ddigwyddiadau pleidleisio. Mae hyn yn galw am lawer o waith paratoi, a mwy o wariant ar ymgyrchu yn ystod gwanwyn 2021.

Mae costau craidd yn ariannu'r gweithgareddau a gyflawnwn ni waeth beth fo'r cylch etholiadol; mae hyn yn cynnwys cofrestru a monitro'r broses o ariannu pleidiau gwleidyddol, cefnogi gweinyddiaeth etholiadol a dadansoddi safonau perfformiad a rhai elfennau o'n gwaith ymchwil. Mae costau craidd yn cynnwys gwariant gweinyddol ar swyddogaethau sy'n cefnogi'r Comisiwn gan gynnwys adeiladau a TGCh.

Mae gwariant cyfalaf cynlluniedig yn cynnwys buddsoddi ym mhorth ar-lein y Comisiwn, sef Cyllid Gwleidyddol a Rheoleiddio ar-lein, a ddefnyddir gan ein rhanddeiliaid i gadw eu manylion sefydliadol a chyflwyno eu ffurflenni ariannol i'r Comisiwn. Mae buddsoddiadau hefyd i ddiweddaru a chyflwyno adnoddau digidol ym mhob rhan o'r Comisiwn er mwyn rhoi arferion gweithio mwy hyblyg ar waith. Mae'r Comisiwn yn prydlesu ei eiddo; o 2021/22 byddwn yn mabwysiadu Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 (IFRS16), yn unol â rheolau'r Trysorlys. O'r flwyddyn honno, mae'n ofynnol i ni ddangos gwerth llawn prydles newydd mewn cyllidebau cyfalaf pan ddaw'r brydles yn weithredol. Mae hyn yn golygu na ellir cymharu'r cyllidebau a ddangosir o 2021/22 yn uniongyrchol â'r cyllidebau ar gyfer 2019/20 neu 2020/21.

PAGE 25

Yn ogystal â chostau gweithredol y Comisiwn, rydym hefyd yn gyfrifol am weinyddu grantiau datblygu polisi i bleidiau gwleidyddol cymwys, yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA). Mae hyn yn darparu ar gyfer talu grantiau gwerth £2 filiwn i bleidiau gwleidyddol cymwys er mwyn helpu i ddatblygu polisïau i'w cynnwys yn eu maniffestos. Byddwn yn parhau i sicrhau bod rheolaethau priodol ynghylch dosbarthu a defnyddio'r arian cyhoeddus hwn.

Crynhoir cynlluniau gwariant y Comisiwn ar gyfer 2020/21 – 2024/25 yn y tabl isod. Mae'r ffigurau yn y tabl isod ar sail prisiau alldro a ragwelir. Wrth baratoi'r cynllun hwn, rydym wedi gwneud nifer o dybiaethau er mwyn sicrhau ein bod yn pennu cynlluniau realistig ac yn sicrhau gwerth am arian. Un o'r rhai allweddol yw'r nifer a'r math o ddigwyddiadau etholiadol a gynllunnir ar gyfer y cyfnod a gwmpesir gan y cynllun hwn. Yr ail benderfynydd allweddol yw lefel y chwyddiant a brofir gan y Comisiwn. Wrth i ni ddatblygu cynllun corfforaethol hirdymor mwy cadarn dros y misoedd i ddod, mae'n bosibl y bydd y gwariant a ragwelir yn newid.

Gwariant a ragwelir y **Comisiwn Etholiadol** 2020-21 i 2024-25

| **Etholiadol £ miliwn** | 2019/20□ | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant craidd | 12.333 | 13.873 | 13.183 | 12.996 | 13.289 | 13.609 |
| Darpariaethau # | 0.400 | 0.400 | 0.400 | 0.400 | 0.400 | 0.400 |
| Dibrisiant | 0.494 | 0.642 | 1.631 | 1.893 | 1.202 | 1.410 |
| **Isgyfanswm craidd** | **13.227** | **14.915** | **15.214** | **15.289** | **14.890** | **15.419** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Digwyddiad | 5.998 | 5.037 | 4.867 | 3.970 | 3.972 | 5.378 |
| Cyfalaf | 0.990 | 1.301 | 0.966 | 0.485 | 0.468 | 1.555 |
| Grantiau Datblygu Polisi | 2.000 | 2.000 | 2.000 | 2.000 | 2.000 | 2.000 |
| **Cyfanswm** | **22.215** | **23.253** | **23.048** | **21.744** | **21.331** | **24.351** |

Nid oes angen awdurdod Seneddol blynyddol ar gyfer gwariant pellach o tua £0.200 miliwn mewn ffioedd Comisiynwyr a threuliau cysylltiedig a ariennir yn lle hynny yn uniongyrchol o'r Gronfa Gyfunol. Ni chaiff y swm hwn ei gynnwys yn y ffigurau uchod.

* Mae ffigurau 2019-20 yn dangos y gyllideb ar ôl yr Amcangyfrif Atodol, yn cynnwys y gyllideb ychwanegol ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU (at ddiben cyfeirio yn unig).

# Mae £0.400 miliwn ar gyfer darpariaethau yn cwmpasu risgiau cyfreithiol posibl, dirywiad adeiladau ac amhariad ar gyfer prydlesau.

PAGE 26

**Ein trefniadau llywodraethu**

Arweinir y Comisiwn gan Fwrdd o Gomisiynwyr, sy'n pennu'r cyfeiriad strategol ac sy'n gyfrifol am waith y sefydliad.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys deg Comisiynydd, y mae'r Cadeirydd yn un ohonynt. Penodir tri o'r Comisiynwyr i gynrychioli Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Comisiynwyr hyn yn rhoi cyngor a chymorth mewn perthynas â'u gwlad. Maent hefyd yn rhoi cyngor ar effaith gwaith y Comisiwn ac mae Bwrdd y Comisiwn yn ymgynghori â nhw ar faterion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Enwebir pedwar o'r Comisiynwyr gan arweinwyr pleidiau gwleidyddol: un gan y blaid sydd â'r nifer fwyaf o ASau yn y Senedd, dau arall gan yr ail a'r drydedd blaid fwyaf, ac un gan y pleidiau gwleidyddol eraill sydd â dau neu fwy o ASau a etholwyd ac sydd wedi dechrau ar eu gwaith fel ASau yn y Senedd. Nid oes gan y ddau Gomisiynydd sy'n weddill unrhyw friff penodol. Penodir pob Comisiynydd gan Ei Mawrhydi y Frenhines, ar gynnig y Senedd.

Fel rhan o'r Fframwaith Corfforaethol mae gan y Bwrdd ddau is-bwyllgor: y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol. Cadeirir y ddau gan Gomisiynwyr.

Ochr yn ochr â Bwrdd y Comisiynwyr, rydym hefyd yn ymgynghori'n gyson â Phanel Pleidiau Seneddol, Grŵp Cynghori Seneddol a Phaneli cyfatebol ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fe'u sefydlwyd er mwyn i bleidiau gwleidyddol roi adborth i ni ar faterion sy'n effeithio arnynt.

Y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Cyfrifyddu.

Rydym yn atebol i Senedd y DU, yn benodol Pwyllgor y Llefarydd, a gadeirir gan Lefarydd Tŷ'r ASau. Enwebir aelod o Bwyllgor y Llefarydd gan y Pwyllgor i ateb cwestiynau yn Nhŷ'r Cyffredin am y Comisiwn Etholiadol.

Ers ei sefydlu yn 2001, mae'r Comisiwn hefyd wedi croesawu prosesau craffu ar bolisïau gan bwyllgorau Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd Cymru erbyn hyn). Mae Deddf yr Alban 2016 a Deddf Cymru 2017 yn darparu bod ein swyddogaethau mewn perthynas â materion etholiadol sydd wedi'u datganoli yng Nghymru a'r Alban yn cael eu hariannu gan y deddfwrfeydd hynny ac yn gynnar yng nghyfnod y Cynllun hwn, mae bron yn sicr y caiff hynny ei weithredu. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn gweithio'n agos ac mewn modd cadarnhaol â'r deddfwrfeydd hynny er mwyn sicrhau y bydd y trefniadau ariannu newydd hyn yn gweithio'n dda, ac er mwyn sicrhau atebolrwydd cyfatebol.

Bob blwyddyn byddwn yn cyflwyno amcangyfrif o'n hincwm a'n gwariant, ynghyd â'n cynllun gwaith, i Bwyllgor y Llefarydd i'w archwilio a'i gymeradwyo. Dros gyfnod y Cynllun hwn, rydym yn rhagweld, unwaith y bydd yn ofynnol yn statudol, y byddwn hefyd yn gwneud cyflwyniadau amcangyfrif priodol i Bwyllgorau cyfatebol Senedd Cymru a Senedd yr Alban.

PAGE 27

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.